Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

CYLCHLYTHYR CYNLLUN CYMORTH GWAED HEINTIEDIG CYMRU (WIBSS)

Ebrill 2024

Taliadau

Gweler isod am y cyfraddau newydd sy'n daladwy o 1 Ebrill 2024. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni.

Taliadau Parhaus	Cyfraddau WIBSS Ebrill	Cyfradd ar 75% ar gyfer partneriaid/gwŷr neu wragedd mewn profedigaeth
Hep. C Cam 1	£22,095	£17,179
Cam 1+ Uwch	£34,736	£26,052
Hep. C Cam 2	£34,736	£26,052
HIV	£34,736	£26,052
Cyd-heintiedig (HIV a Cham 1)	£47,150	£35,363
Cyd-heintiedig (HIV a Cham 2)	£54,590	£40,943
Cyd-heintiedig (HIV a Cham 1+)	£54,590	£40,943
Tanwydd gaeaf (i'w dalu ym mis Hydref)	£659	£659

Lleoliad newydd ar gyfer cyhoeddi adroddiad

Nawr, bydd Adroddiad yr Ymchwiliad yn cael ei gyhoeddi yn y Neuadd Ganolog, San Steffan, ar 20 Mai, 2024.

Mae'r Ymchwiliad wedi newid y lleoliad, fel y gellir darparu ar gyfer holl gyfranogwyr yr Ymchwiliad sy'n dymuno mynychu. Mae tîm yr Ymchwiliad yn cysylltu â phawb sydd wedi mynegi diddordeb mewn mynychu.

CYSYLLTU

Cysylltwch â WIBSS ar **02921 500900** neu anfonwch e-bost at **wibss@wales.nhs.uk**

Os na chaiff eich galwad ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt, ac fe wnawn ni eich ffonio yn ôl yn brydlon.

Ar gyfer yr Adran Seicoleg a Lles, anfonwch e-bost at: **wibss.wellbeingservice@wales.nhs.uk**

Cyswllt Diweddar

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.
Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod o WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02921 500900**.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

HAWLIAU LLES

Sesiwn cyfarfod



Hoffai'r tîm gynnal sesiwn cyfarfod ar gyfer aelodau WIBBS. Gallwn gynnig y cyfarfod mewn person neu ar-lein. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd aelodau'n cael y cyfle i gael cefnogaeth grŵp ehangach, a thrafod unrhyw faterion gyda staff WIBSS.

Os yw hyn yn rhywbeth y byddai gennych ddiddordeb mewn mynychu, cysylltwch â'r tîm dros y ffôn neu drwy e-bost.

Cymorth Hawliau Lles

Hoffem eich atgoffa ein bod yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol ac ymroddedig. Gall y tîm helpu gyda nifer o faterion, gan gynnwys, materion budd-daliadau, cynyddu incwm, rheoli arian, eiriolaeth a chymorth cyffredinol. Mae'r gwasanaeth ar gael i chi ac aelodau'ch teulu.

Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys cynnal gwiriadau budd-daliadau, cwblhau ceisiadau am fudd-daliadau, darparu cymorth gyda'ch morgais/llythyrau cadarnhau, a hysbysu'r Adran Gwaith a Phensiynau o'ch taliadau WIBSS, (yn datgan **na** fydd eich taliadau WIBSS yn newid eich hawl i fudd-dal).

Gellir cynnal apwyntiadau drwy ymweliadau cartref, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy apwyntiadau ar-lein (timau)

Tîm Seicoleg a Lles

Rydym eisiau eich atgoffa o'r gwasanaethau sydd ar gael i chi. Mae WIBSS yn cynnig gwasanaeth asesu a thriniaeth seicolegol gyfrinachol, rhad ac am ddim, sy'n ymwneud ag anawsterau emosiynol o ran cael diagnosis o Hepatitis C a/neu HIV, a byw gyda nhw. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i chi ac aelodau'ch teulu. Os hoffech gysylltu â ni, gallwch gysylltu â'r tîm penodedig ar 029 20196141, neu drwy e-bost: wibss.wellbeingservice@wales.nhs.uk <mailto:wibss.wellbeingservice@wales.nhs.uk>.

Rydym bellach wedi recriwtio cwnselydd ar gyfer y gwasanaeth WIBSS, a disgwylir iddynt ddechrau yn gynnar ym mis Mai.

Hoffem ddymuno gwanwyn hyfryd i chi gyd,

Tîm Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru